

# Ei nabod ef yn well

*“A’ m gweddi yw, ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roi i chwi, yn eich adnabyddiaeth ohono ef, yr Ysbryd sy’n rhoi doethineb a datguddiad.” (adn. 17)*

## Beth am ddarllen Effesiaid 1:15–23 ac yna myfyrio

Ddoe, fe nodwyd fod calon y person duwiol yn cael ei nodweddu gan hiraeth a dyhead i ganlyn yr Arglwydd. Wrth ichi archwilio bywyd person duwiol, fe ddaw dau beth i’r amlwg: hiraeth am Dduw a pharodrwydd i ufuddhau ymhob peth. Mewn geiriau eraill, ystyr duwioldeb yw rhoi holl sylw ein henaid ar yr Arglwydd a rhoi iddo ein hufudd-dod llwyr.

Wrth inni feddwl am roi sylw ein henaid i gyd i’r Arglwydd, fe amlygir hyn ar ei orau yn ein bywyd gweddiol. Ar fy silfflyfrau, mae yna nifer o gofiannau sydd yn adrodd hanes y saint o’r gorffennol – pobl fel Awstin a John Wesley, gwragedd fel Teresa o Avila a Catherine Booth. Mae’r cofiannau yma i gyd yn tystio mai cyfrinach eu duwioldeb oedd yr amser a dreulient mewn gweddi. Un o’r pethau diddorol am eu gweddiâu yw nad oedd fawr o sylw i’r hunan ynddynt. Wrth inni agosáu at Dduw mewn gweddi, yr ydym yn pellhau oddi wrth yr hunan.

Yn anffodus, mae gweddiâu nifer o bobl yn hunanganolog. Rhai blynyddoedd yn ôl, fe ddarganfuwyd y weddi yma ymysg papurau Aelod Seneddol oedd yn byw yn y ddeunawfed ganrif: “Arglwydd, rwyt yn gwybod am fy stad yn ninas Llundain ac rwyt hefyd yn gwybod fy mod yn ddiweddar wedi prynu y stad yn Essex. Rwy’n gofyn i ti warchod dros Middlesex ac Essex rhag tân a dinistr ac, am fod gennyf forgais yn Hertfordshire, rwy’n gofyn i ti hefyd edrych yn drugarog ar y sir honno. Am weddill y siroedd, fe ellir ddelio â nhw yn ôl dy ewyllys.” Efallai fod gweddi yn weithgarwch duwiol ond fe ellir camddefnyddio gweddi yn arswydus.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 33:15–34:8;

Math. 6:5–15;

Iago 4:1–3

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd dymuniad Moses?
2. Sut ddylem ni weddio?

## Gweddi

Dad trugarog a graslon, wrth i ti fy nysgu fwy am weddi, gwared fi rhag hunanoldeb yn fy ngeiriau. Rwy’n hiraethu am gael dy adnabod di, ac wrth dy adnabod, adnabod twyll fy nghalon fy hun. Yn enw Iesu. Amen.